GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales



# Gwerthusiad proses Adnoddau Gwybodaeth Iechyd Pob Plentyn i Rieni gydag ymweliadau mamolaeth ac iechyd yng Nghymru: Crynodeb Gweithredol

Gweithredu, Lledaenu a Defnyddio Pob Plentyn Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth, a Newydd-anedig Hyd at 2 Oed.

Fersiwn 1

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Gwerthusiad o Adnoddau Gwybodaeth Iechyd Pob Plentyn i Rieni gydag ymweliadau mamolaeth ac iechyd yng Nghymru: Gweithredu, Lledaenu a Defnyddio Gwybodaeth Iechyd Pob Plentyn i Rieni: Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth (Llyfryn 1) a Newydd-anedig hyd at 2 Oed (Llyfryn 2).

[1] Lem Ngongalah, [1] Laura Rich, [2] Charlotte Grey, [1] Amy McNaughton

## Cysylltiadau

[1] Is-adran Gwella Iechyd (Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant), Iechyd Cyhoeddus Cymru

[2] Adran Ymchwil a Gwerthuso (Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r Is-adran Gwella Iechyd yn gweithio'n genedlaethol ar draws y system wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso ymyriadau iechyd. Mae'r Tîm Gwerthuso Canolog wedi'i sefydlu o fewn yr Adran Ymchwil a Gwerthuso yn y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r tîm yn cefnogi cynllunio a chyflawni gwerthusiad cadarn ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i bartneriaid strategol ehangach. Gwybodaeth Iechyd Pob Plentyn i Rieni

ISBN 978-1-83766-645-4

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Ymwadiad

Barn y tîm gwerthuso yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt yn cynrychioli rhai Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) fel sefydliad, partneriaid gweithredu, unigolion na sefydliadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

## Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i'r unigolion a'r timau a gefnogodd y gwaith hwn drwy rannu eu mewnwelediadau a'u mewnbwn. Diolch i'r Arweinwyr Strategol ar draws Bydwreigiaeth, Ymwelwyr Iechyd, a systemau'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Diolch hefyd i Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am gefnogaeth gydag offer casglu data ac am gefnogaeth prosiect gan gydweithwyr yn yr Is-adran Gwella Iechyd.

**Manylion cyswllt:**

I gael mynediad at yr Adroddiad Gwerthuso llawn (ar gael yn Saesneg yn unig):
Every Child, Health Improvement Division, Public Health Wales
E-bost: everychild@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Mae adnoddau Gwybodaeth Iechyd Pob Plentyn i Rieni yn darparu gwybodaeth a negeseuon iechyd a lles cyffredinol i rieni tro cyntaf yng Nghymru. Mae Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth) a Newydd-anedig hyd at 2 Oed yn cael eu cynhyrchu'n genedlaethol i roi mynediad i rieni yng Nghymru a gweithwyr iechyd proffesiynol at ganllawiau o ansawdd uchel, dibynadwy a hygyrch ar adegau allweddol yn ystod beichiogrwydd a'r daith rhianta gynnar. Maent ar gael fel copi caled ac fel e-lyfryn digidol, yn Gymraeg a Saesneg. Darperir yr adnoddau mewn mannau cyswllt allweddol mewn ymweliadau mamolaeth ac iechyd.

## Diben a dulliau gwerthuso

Canolbwyntiodd y gwerthusiad hwn ar **Lyfryn 1: Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth a Llyfryn 2: Newyddenedig hyd at 2 Oed**, yn archwilio sut mae Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd yn eu defnyddio ar draws Cymru.

Casglwyd data drwy arolygon (116 o ymatebion), cyfweliadau (7 cyfranogwr), a grwpiau ffocws (5 cyfranogwr) gyda staff rheng flaen sy'n cefnogi rhieni'n uniongyrchol a staff strategol sy'n ymwneud â chynllunio a goruchwylio gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd.

Defnyddiwyd dull dadansoddi wedi'i lywio gan theori i archwilio sut y gweithredwyd y llyfrynnau yn ymarferol. Defnyddiwyd fframweithiau ymddygiadol i ddehongli canfyddiadau a chefnogi dadansoddiad o ffactorau cyd-destunol aml-lefel, megis arweinyddiaeth leol, prosesau cyfathrebu, strategaethau gweithredu, rhwystrau a hwyluswyr.

## Canfyddiadau allweddol

**Ymwybyddiaeth uchel, ond defnydd amrywiol ar draws rhanbarthau.** Roedd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r llyfrynnau – roedd 87% o Fydwragedd yn gwybod am Lyfryn 1, ac roedd 96% o Ymwelwyr Iechyd yn ymwybodol o Lyfryn 2. Fodd bynnag, roedd y defnydd yn amrywio ar draws Cymru. Nododd 69% o Fydwragedd eu bod wedi defnyddio Llyfryn 1, a nododd 83% o Ymwelwyr Iechyd eu bod wedi defnyddio Llyfryn 2.

**Rhoddwyd llyfrynnau gan amlaf ar yr amser bwriadedig.** Fel arfer, cyflwynwyd Llyfryn 1 yn ystod gofal cynenedigol, yn enwedig yn yr apwyntiad bwcio. Fel arfer, rhannwyd Llyfryn 2 yn yr ymweliad ôl-enedigol 10–14 diwrnod. Fe’i darparwyd yn gynharach gan rai staff Dechrau'n Deg, yn ystod cysylltiadau cynenedigol, oherwydd ymgysylltiad amlach. Mewn ychydig o achosion, fe'i rhoddwyd yn ddiweddarach, yn dibynnu ar anghenion y teulu.

**Dylanwadodd systemau lleol ar ba mor gyson y cafodd y llyfrynnau eu dosbarthu.** Lle'r oedd llyfrynnau'n cael eu cynnwys yn awtomatig mewn pecynnau, megis wrth archebu neu apwyntiadau geni, roedd y dosbarthiad yn fwy cyson. Mewn ardaloedd lle'r oedd dosbarthiad yn dibynnu ar benderfyniadau staff unigol, roedd y defnydd yn fwy amrywiol. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn ansicr a oedd y llyfrynnau ar gyfer pob rhiant neu deuluoedd tro cyntaf yn unig, er bod y rhan fwyaf yn credu eu bod yn berthnasol i bawb.

**Roedd fformat a defnydd y ddarpariaeth yn amrywio rhwng byrddau iechyd.** Copïau caled oedd y fformat a ddefnyddiwyd fwyaf. Roedd y rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn dibynnu ar fersiynau copi caled o Lyfryn 1, tra bod rhai, fel Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr, hefyd yn defnyddio'r fformatau e-lyfryn. Caerdydd a'r Fro oedd â'r defnydd digidol yn unig uchaf, er bod hyn yn seiliedig ar sampl fach. Defnyddiwyd Llyfryn 2 mewn fformatau mwy digidol neu gymysg, yn enwedig ym Mhowys a Hywel Dda. Dylanwadwyd ar y gwahaniaethau hyn gan ddewisiadau rhieni, polisïau lleol, arferion tîm, mynediad digidol, a chymorth gweinyddol.

**Dylanwadodd profiad, hyder a chymhelliant ar y defnydd.** Yn gyffredinol, defnyddiwyd llyfrynnau yn amlach gan staff ar ddechrau eu gyrfa. Adroddodd Bydwragedd mwy profiadol am lai o ddefnydd o Lyfryn 1, tra bod Ymwelwyr Iechyd yng nghanol eu gyrfa wedi gwneud y defnydd isaf o Lyfryn 2. Er bod hyder ac arweiniad clir yn cefnogi defnydd, roedd llawer o staff a oedd yn teimlo'n ansicr neu heb gael digon o arweiniad yn dal i ddefnyddio'r llyfrynnau, gan awgrymu bod cymhelliant personol, barn broffesiynol, a chred yng ngwerth y llyfrynnau hefyd yn chwarae rhan bwysig.

**Roedd y rhwystrau'n cynnwys problemau cyflenwi, rolau aneglur, a chyflenwi anghyson.** Roedd heriau cyffredin yn cynnwys prinder cyflenwad, cyfrifoldebau aneglur dros archebu, ac oedi wrth dderbyn stoc. Effeithiodd canllawiau neu hyfforddiant ffurfiol cyfyngedig ar y ddarpariaeth hefyd, gyda rhai ardaloedd yn cyflwyno'r llyfrynnau drwy un e-bost neu sianeli anffurfiol. Roedd pwysau amser a llwythi gwaith uchel hefyd yn cyfyngu ar y gallu i drafod gyda theuluoedd, yn enwedig ar gyfer Llyfryn 1.

**Bylchau mewn cyrhaeddiad a amlygwyd gan adborth proffesiynol a data archebu.** Roedd llawer o Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd yn teimlo nad oedd y llyfrynnau'n cyrraedd pob teulu a ddylai fod yn eu derbyn. Cefnogwyd y canfyddiad hwn gan gymariaethau rhwng cofnodion archebu llyfrynnau a ffigurau genedigaethau yn ôl bwrdd iechyd, a ddangosodd fod llai o gopïau caled yn cael eu harchebu na'r nifer amcangyfrifedig o deuluoedd a fyddai'n debygol o fod eu hangen. Fodd bynnag, amcangyfrifon dangosol yn unig oedd y rhain, gan nad oedd unrhyw ddata ar gael ar lawrlwythiadau e-lyfrynnau, felly ni ellid asesu'r cyrhaeddiad cyffredinol yn llawn.

**Roedd cynnwys dibynadwy a dulliau seiliedig ar dîm yn cefnogi integreiddio.** Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol y llyfrynnau fel rhai clir, credadwy, a defnyddiol. Cefnogodd y dyluniad gweledol, y cynnwys dwyieithog, a'r fformat cryno ymgysylltiad rhieni a hyder proffesiynol. Roedd y gweithredu'n gweithio orau lle roedd timau'n rhannu gwybodaeth, yn modelu arfer da, neu'n adeiladu'r llyfrynnau i ofal arferol. Roedd cael opsiynau fformat copi caled ac e-lyfryn yn ei gwneud hi'n haws diwallu anghenion teuluoedd gwahanol.

**Effeithiodd defnyddio adnoddau eraill ar gysondeb.** Mewn amrywiol feysydd, parhaodd gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio adnoddau hŷn neu fwy cyfarwydd, gan gyfrannu at negeseuon cymysg a llai o welededd y Llyfrynnau.

## Argymhellion

Er mwyn cefnogi cyflwyno’r llyfrynnau’n gyson ac yn deg, mae’r gwerthusiad yn argymell:

**Canllawiau clir:** Datblygu canllawiau cenedlaethol ar bwy ddylai dderbyn y llyfrynnau, pryd i'w cyflwyno, a sut i wneud gwaith dilynol. Ymgorffori hyn mewn llifau gwaith lleol gan ddefnyddio offer ymarferol.

**Cyfathrebu'n well** Gwella gwelededd y llyfrynnau drwy friffiau tîm, cylchlythyrau a llwyfannau mewnol.

**Systemau dosbarthu cadarn:** Sicrhau bod gan bob bwrdd iechyd rolau clir a phrosesau dibynadwy ar gyfer rheoli stoc a mynediad digidol.

Hyfforddiant Integredig: Cynnwys hyfforddiant llyfryn ymarferol mewn sefydlu staff a datblygiad proffesiynol parhaus, yn unol â fframweithiau cenedlaethol.

**Mynediad cynhwysol:** Gweithio gyda chymunedau i ddeall ac ymateb i anghenion iaith, llythrennedd a digidol teuluoedd. Defnyddio canfyddiadau i lywio fformatau cynhwysol.

Monitro a Gwerthuso: Datblygu theori genedlaethol o newid a chyflwyno offer syml i olrhain cyflawniad a chefnogi gwelliant.

**Seilwaith digidol cryfach:** Buddsoddi mewn systemau sy'n cefnogi olrhain cyson, rhannu data, a mewnwelediadau amser real ar draws rhanbarthau.

## Camau nesaf: ystyriaethau ar gyfer Cyfnod 2 (gwerthuso Llyfrynnau 1 a 2 gyda rhieni)

Mae canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn yn tynnu sylw at ystyriaethau allweddol ar gyfer Cyfnod 2, gan gynnwys yr angen i ymgysylltu â theuluoedd amrywiol, archwilio mynediad a pherthnasedd o safbwyntiau rhieni, deall effaith ymgysylltu ymarferwyr, a nodi cyfleoedd i deilwra a gwella'r adnoddau.